CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
16 Ebrill 2019, Gosen, Llangwyllog
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, A Williams, C Jones, D Morgan, A Wyn, G D Williams, W Williams, D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Pritchard, D Roberts, C McGregor	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Morgan.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 19.03.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth)** - Mewn absenoldeb ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru, cytunwyd i dynnu y mater o'r agenda. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran eiddo i ddweud wrthynt gan fod yr eiddo wedi'i gofrestru yn eu henw, y bydd unrhyw faterion mynediad pellach yn cael eu cyfeirio atynt.
4.2	**Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn** - Mae peipiau wedi cael eu gosod drost y llwybr. Bydd y Clerc yn cyfeirio y mater i'r Cyngor Sir
4.3	**Lloches bws, Talwrn** - Bydd y Clerc yn gofyn i'r contractwr am diweddariad
4.4	**Cyflwr y lôn wrth ymyl Bryn Gors** - Mewn llaw
4.5	**Archwilydd allanol** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.6	**Porth y Dryw** - mewn llaw
4.7	**Lay By Llangwyllog** - mewn llaw
4.8	**Baw ci Talwrn** - disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.9	**Lonydd Tregaian** - mewn llaw
4.10	**Cyflwr yr allt ochr Moelfre** - wedi'i wneud
4.11	**Coed o Bodlondeb i lawr** angen ei torri - mewn llaw
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	FPL/2019/43 Tyn Lôn, Llangwyllog - Cytunwyd i gwrthwynebu oherwydd bod y cais yn debyg i'r un blaenorol, hefyd nid yw yn cyd-fynd ar cymuned
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Unllais Cymru - Bwletin Newyddion (gwastraff niwclear). Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gwrthwynebu claddu gwastraff o dan ddaear. Cytunwyd i ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i'r Cyngor
	Llofnod……Cadeirydd 21.05.19

7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	**Neuadd Talwrn** - Llythyr yn gofyn am cymorth ariannol. Cytunwyd i gynnig £1000 ar ôl gweld yr mantolen.
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Lôn Bacsia (tynnu o'r agenda)
8.2	Sedd wâg - Derbyniwyd ymddiswyddiad Cyng Dylan Morgan (ar ôl y cyfarfod blynyddol) - cytunwyd i hysbysebu y sedd wâg.
8.3	Derbyn y Rheolau Cyllid a Rheolau Sefydlog newydd - ystyried yn y cyfarfod nesaf
8.4	Contract gwaith y Clerc - ystyried yn y cyfarfod nesaf
8.5	MANDAD y banc - Bydd angen tynnu Dyng D Morgan - bydd y Clerc yn trefnu cael ffurflenni o'r banc
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Llwybr Tre Ddewi, Llangwyllog lawr at y lein
9.2	Llwybr Cefn Poeth mawr
	Llofnod……Cadeirydd 21.05.19